pp Rhagfyr 23.qxp_Layout 1 05/12/2023 1:43 pm Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Rhagfyr 2023 Rhif 494



Ffair Nadolig Neuadd Goffa Tal-y-bont – tud 7

## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

# Gorymdeithio a chodi llais!




Gofynnwyd y cwestiwn yn rhifyn mis Hydref Papur Pawb os oedd Llywodraeth Cymru wedi anghofio Eglwys-fach a Ffwrnais gan fod llawer o ardaloedd preswyl yng Nghymru bellach gyda therfyn cyflymder o 20mya? Wel os oedd hynny'n wir wedi ymgyrchu cyson dros 30 o flynyddoedd i wneud y pentrefi yn fwy diogel, mae'r trigolion lleol wedi gwneud yn siŵr eu bod yn codi llais yn groch ac yn eu hatgoffa! Mae'r ymgyrch i gyflwyno terfyn cyflymder o 30mya ar yr A487 trwy bentrefi Eglwys-fach a Ffwrnais yn magu stem ac wedi denu cryn sylw yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Mae Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed wedi bod yn hynod weithgar ac wedi i'r Cynghorydd Ruth Stevenson greu deiseb ar-lein cafwyd diddordeb cynyddol yn yr ymgyrch i leihau'r terfyn cyflymder o Ffwrnais i Glandyfi. Mae'r ddeiseb eisoes wedi casglu 412 o lofnodion ac o'r herwydd bydd yn cael ei thrafod gan Bwyllgor Deisebau Llywodraeth Cymru pan ddaw'r ddeiseb i ben ar 03 Ionawr 2024. Mae croeso i chi rannu'r cyswllt â ffrindiau a theulu - gorau po fwyaf o lofnodion. Gellir ei chyrchu yn https://petitions.senedd.wales/petitions/245832.

Mae'r Cynghorydd Alison Swanson a Sefydliad y Merched wedi bod mor garedig â threfnu baner SLOW/ARAF 30, sy'n cael ei harddangos ar hyn o bryd ar y rheiliau ger yr Ystafell Haearn.

Ar y 18fed o Dachwedd cynhaliwyd gorymdaith ar hyd y ffordd fawr i dynnu sylw at y ddeiseb am gyfyngiad o 30mya gan ddechrau yn y gilfan yng Nglandyfi. Ffrwyth gwaith y cynghorwyr Ruth Stevenson ac Alison Swanson ill dwy sydd wedi bod yn gweithio'n galed iawn y mis hwn yn trefnu gyda chefnogaeth y trigolion lleol. Daeth tyrfa niferus ynghyd gan gynnwys Elin Jones AS a'r Cynghorydd lleol Catrin M S Davies a chafwyd diddordeb cynyddol yn yr ymgyrch yn y wasg ac ar y cyfryngau.

Dywedodd y Cyng. Catrin M S Davies:

'Mae'r cyfuniad o gyflymder y traffig a diffyg palmentydd yn troi taith gerdded syml o Eglwys-fach i Ffwrnais yn fenter beryglus - yn enwedig ar y bont gul yna. Mae cynghorwyr bro a thrigolion eraill Ffwrnais ac Eglwys-fach wedi galw am newid ers blynyddoedd lawer a nawr bod Llywodraeth Cymru newydd wneud newidiadau i derfynau cyflymder rwy'n gobeithio y byddan nhw'n edrych yn ffafriol ar y galwadau gan bobol Ysgubor y Coed.

Y gobaith yw bod Llywodraeth Cymru am addasu deddfwriaeth yn 2024 a fydd yn galluogi mwy o ardaloedd i alw am newid terfynau cyflymder 40mya a fyddai yn newyddion da yn Ysgubor y Coed.'

Mae Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed yn estyn eu diolch i bawb a fu'n helpu mewn amrywiol ffyrdd yn ogystal â'r rhai a fynychodd. Mae'r cyngor yn awyddus i gynnal y momentwm, yn enwedig ar ôl cyflwyno'r 20mya ar draws Cymru yn genedlaethol ym mis Medi 2023. Edrychwn ymlaen at ddarllen am y datblygiadau nesaf ym Mhapur Pawb.

pp Rhagfyr 23.qxp_Layout 1 05/12/2023 1:43 pm Page 2


## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb.*
*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG


am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## Golygyddion

Golygwyd y rhifyn hwn gan Rhian a Catrin gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Menna (menna.morgan@googlemail.com) fydd yn golygu rhifyn Ionawr 2024.

Y dyddiad cau yw 5 Ionawr a bydd y papur ar werth ar 12 Ionawr.




"Credwch chi fi, mae mwy o le fewn fan hyn nag sydd yn y stabl"

### Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

## Cymorthdaliadau 2023/24

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau lleol. Dylai'r ceisiadau gynnwys disgrifiad o weithgareddau'r mudiad, nifer y bobl a fyddai'n elwa, y modd y gallai gweithgarwch y mudiad fod o fudd i fioamrywiaeth a'r amgylchedd lleol, a manylion unrhyw brosiectau arbennig lle bo hynny'n berthnasol.

Ni fydd y Cygor yn ystyried unrhyw gais heb weld copi o'r fantolen ddiweddaraf.
Anfonwch eich ceisiadau at:
**Lynwen Rees Jones**
Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
Llys y Bryn, Tre'r-ddôl, Machynlleth SY20 8PN
neu
CyngorCMM@gmail.com
**erbyn 8 Ionawr 2024 fan bellaf**

## GYRFA CHWIST NADOLIGAIDD SIOE TAL-Y-BONT

♠ ♦ ♣ ♥

20 Rhagfyr 2023
Neuadd Goffa Tal-y-bont
8yh

## Cronfa Eleri



**Blwyddyn 2023 – dros £25,600 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
**Tel:** 01970 832551 **e-bost**: ymholiadau@cronfaeleri.com

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 13eg 2024**

**Amcanion Cronfa Eleri**
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**RHAGFYR**

**10** **Bethel** 10 Geraint Evans
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Cymanfa Garolau Sioe'r Cardis** 7 Capel Carmel, Llanilar

**12** **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Teithio a ffilmio' (Catrin M.S. Davies)
**C.Ff.I Tal-y-bont** – Canu Carolau o amgylch yr ardal

**15** **Ffair Lles y Gaeaf** 2–6 Neuadd Goffa Tal-y-bont (Trefnir gan Cavo)
**Cwis** 8 Wildfowler

**16** **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
**Eglwys Llangynfelyn/Capel Rehoboth yn Llanfach** 3 Llithoedd a Charolau
**Cyngerdd Nadolig gyda Chôr y Gors** 7 Neuadd Llanfach

**17** **Bethel** 10 Uno â Seion, Huw Roderick
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**19** **C.Ff.I Tal-y-bont – Canu Carolau o amgylch yr ardal**

**20** **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach
**Gyrfa Chwist Nadoligaidd Sioe Tal-y-bont** 8 Neuadd Goffa Tal-y-bont

**21** **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol

**24** **Bethel** 5.30 Gwasanaeth Noswyl Nadolig yr Ysgol Sul
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**25** **Bethel** 10 Gwasanaeth Bore Nadolig
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 8 Gwasanaeth

**31** **Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**IONAWR**

**5** **Cwis** 8 Wildfowler

**9** **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Hanes Cranogwen' (Jane Aaron)

**11** **Bingo** 7.30 Wildfowler

**BOB WYTHNOS**
**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'



Hoffai **Gwilym** ac **Ann Jenkins, Llety'r Bugail,** ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda heddychlon i'n teulu a'n ffrindiau i gyd, a diolch i bawb sy'n galw i'n gweld ac am bob cymwynas.

# Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau mawr i aelodau gwybodus tîm ‘Kit-kat’, enillwyr y noson ‘Caws a chwis a mwy’ a gynhaliwyd ar y 23 Tachwedd yn y Neuadd Goffa gan Is-bwyllgor Cae Bach Ceulanamaesmawr.

**Pen-blwyddi Arbennig**
Pen-blwydd hapus i’r canlynol sydd wedi dathlu pen-blwyddi arbennig yn ddiweddar. David Elwyn Griffiths, Bontgoch; Alan Williams, Gwarcwm, Taliesin ac Annie James, Tŷ-Twt, Tal-y-bont.

**Dathlu’r Deunaw**
Pen-blwydd hapus i Tomos Jac Benjamin, Dôl-Pistyll, Tal-y-bont, sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw yn ddiweddar.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad i Ros Mortis, Tynlôn, Tal-y-bont, wedi iddo golli ei mam oedd yn 103 oed yn ddiweddar. Ganwyd ei mam yng Ngwlad Pwyl, ond yn Essex y treuluodd ddiwedd ei hoes. Cydymdeimlwn hefyd â Maureen Jenkins, Aberceulan, ar golli ei brawd, oedd yn byw yn yr Alban.

**Brysiwch Wella**
Dymunwn wellhad buan i Carol Bryan, Coed y Garth, Ffwrnais, sydd newydd dderbyn triniaeth yn ddiweddar.

**Pen-blwydd arbennig**
Pob dymuniad da i Beverley Pritchard, Y Llew Gwyn, Tal-y-bont, a fu’n dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio iddi fwynhau ei gwyliau yn yr Ynysoedd Dedwydd.

**Anrhydedd**
Llongyfarchiadau i Dr Karl Hoffmann, Coetmor, Tal-y-bont, sydd wedi derbyn gwobr arbennig am arwain tîm o ymchwilwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth sy’n arbenigo mewn grŵp penodol o lyngyr lledog parasitig sy'n achosi clefydau dinistriol fel Sgistosomiasis mewn pobl a Fasciolosis mewn da byw.

Mae’n debyg bod clefyd Sgistosomiasis yn lladd 12,000 o bobl y flwyddyn ac yn heintio 200 miliwn o bobl, tra bod Fasciolosis yn effeithio 300 miliwn o wartheg a 250 miliwn o ddefaid.

Am y gwaith arloesol gan Dr Hoffmann a’i dîm yn y maes arbenigol hwn dyfarnwyd y *Queen’s Anniversary Prize* sef yr Anrhydedd uchaf a ddyfernir i sefydliadau addysg bellach ac uwch yn y DU.

## Lles y Gaeaf CAVO

Mae CAVO yn cynnal sesiwn Lles y Gaeaf 2pm – 6pm dydd Gwener 15 Rhagfyr 2023 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Bydd cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ceredigion, Nest, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Papyrus, Cyngor ar Bopeth, yn ogystal â CAVO.



Mari ac Ieuan Evans, Glanaber, Tal-y-bont gyda’u gwobrau yn y Ffair Aeaf.




Llwyddiant i Beca a Cadi Williams yn Eisteddfod CFfI Cymru yn Ynys Môn – gweler tudalen 11.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Will a Susan Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont, ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Ganwyd mab i Dylan a Sam yn ddiweddar, Harry Robert Dylan Hopkins, brawd bach i Chester.


Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Alun Davies
Contractiwr Trydanol
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
M 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

pp Rhagfyr 23.qxp_Layout 1 05/12/2023 1:43 pm Page 4



*Meddiannu'r Llyfrgell*



*Diwrnod Plant Mewn Angen*



*Her ddarllen Llyfrgell Ceredigion*



*Wythnos Gwrth-fwlio*




*Ymweliad y Gwasanaeth Tân*

pp Rhagfyr 23.qxp_Layout 1 05/12/2023 1:43 pm Page 5

# Ysgol Tal-y-bont

## Her ddarllen Llyfrgell Ceredigion

Llongyfarchiadau mawr i'r criw yma fu'n darllen yn ddiwyd dros wyliau'r haf. Y thema eleni oedd "Ar Eich Marciau" a'r her eleni eto oedd ymweld â Llyfrgelloedd y Sir a darllen o leiaf 6 llyfr. Wrth ymweld â'r Llyfrgell yn Aberystwyth roedd cyfle i ennill nifer o wobrau'r Pencampwyr gan gynnwys y medalau pren hardd yma. Da iawn chi gyd a phob hwyl gyda'r darllen i'r dyfodol.

## Meddiannu'r Llyfrgell

Un o'r profiadau mwyaf difyr a chyffrous i ni gael fel ysgol er sbel oedd y cyfle i feddiannu Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Am ddiwrnod cyfan cafodd disgyblion Braich Garw eu gwahodd i ddilyn gweithwyr y Llyfrgell a'u gweld wrth eu gwaith fel rhan o gynllun "Kods in Musems". Roedd rhai wedi bod y cyrchu llyfrau, eraill yn gweithio yn y siop, rhai yn tynnu ffotograffau ac eraill yn gofalu am yr arddangosfeydd. Roedd lluniau o'r dydd yn profi bod y plant wedi wir fwynhau ac rwy'n siŵr y byddan nhw'n cofio'r achlysur am amser hir. Diolch yn fawr i Rhodri a Dyfan am hwyluso'r trefniadau.



*Meddiannu'r Llyfrgell*

## Clwb Pêl-droed Aberystwyth

Profiad difyr arall oedd cael ein gwahodd i fod yn fasgots i dîm pêl-droed tref Aberystwyth. Roedd hi'n gyffrous i ddod i adnabod y chwaraewyr yn y twnnel ac i arwain y tîm i'r cae. Ond mae'n siŵr taw'r uchafbwynt oedd cael cicio'r bêl yn ystod hanner amser ac fe gafodd 5 y cyfle i gymryd ciciau o'r smotyn yn erbyn gôl-geidwad Aberystwyth. Da iawn Isaac am sgorio 4 allan o 5 ac ennill het am ei gamp!

## Diwrnod Plant Mewn Angen

Annwyl bawb,
Diolch yn fawr am ddod â chacennau i'r ysgol a chymryd rhan i godi arian i Blant Mewn Angen. Diolch o galon i Miss Vicky am helpu gyda'r peintio wynebau. Codwyd yn agos i £130 tuag at yr elusen.
Yn gywir,
Alaw (ar ran y Cyngor Ysgol)

## Pêl Rwyd

Roedd hi'n wych i weld cymaint o ddisgyblion yn cystadlu mewn dwy gystadleuaeth pêl rwyd yn y ystod y mis. Er gwaethaf y canlyniadau, roedd hi'n hyfryd i weld pawb yn chwarae gyda gwên ac yn mwynhau'r profiad. Diolch yn fawr i Mrs Jones am ofalu am y tîm ac i'r Urdd am drefnu'r gemau.

## Ffair y Neuadd

Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb am helpu gyda'r stondin ysgol yn y ffair brysur – yn rhieni a phlant! Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o brysurdeb yn y Neuadd Goffa ac ar ein stondin eleni eto. Roedd y peintio wynebau'n arbennig o brysur a phoblogaidd!



*Ffair y Neuadd*

### Ysgol Iach
## Wythnos Gwrth-fwlio

Yn ystod mis Tachwedd roedd hi'n wythnos gwrth-fwlio cenedlaethol ac fe fanteisiodd yr ysgol ar y cyfle i gynnal trafodaethau bywiog am y gwahaniaeth rhwng bod yn gas a bwlio. Er mwyn pwysleisio fod pawb yn wahanol a bod hawl gan bawb i fod yn wahanol, gwahoddwyd y disgyblion i wisgo sanau gwahanol ac fe gafwyd sawl cyfuniad diddorol! Da iawn chi blant am ymateb mor bositif i'r negeseuon.

## Ymweliad y Gwasanaeth Tân

Cawsom ymweliad difyr a phwysig gan Lona o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i gyflwyno ei gwaith. Roedd y pwyslais ar i bawb gadw'n ddiogel yn y cartref. Roedd y plant wrth eu boddau'n gofyn cwestiynau ac yn gwisgo'r offer! Rhannwyd rhif ffôn pwysig gyda ni hefyd sef – 0800 1691234 er mwyn i chi gael larwm mwg am ddim.

## Ysgol Dechnolegol

Mae sgiliau codio plant yr ysgol yn datblygu'n wych. Yn ystod y mis rhoddwyd benthyg teclynnau o'r enw Sphero Bolts i ni gan swyddogion y Sir. Roedd yn gyfle arbennig i weithio ar ddeall yn well sut i godio gan gydweithio gyda'u ffrindiau hefyd.
Cafwyd gweithdy arbennig gan Dan o Technocamps i drosglwyddo AI i Scratch. Er bod yr iaith yma'n ddieithr i lawer o'r darllenwyr mae'n siŵr, mae'r plant yn arfer ac yn ymateb yn wych i'r heriau. Roedd y dasg yma'n cysylltu gyda gweithgareddau Gwrth-fwlio.




*Pêl Rwyd*

# Clwb Hen Beiriannau



I'r cyfarfod ar 11 Hydref daeth gŵr o'r enw Richard Fishbourne atom i siarad am y rhan mae pryfaid genwair yn chwarae o dan wyneb y ddaear. Mae Richard yn hanu o ardal Henffordd ble mae'n cadw diadell o ddefaid. Mae cysylltiadau ganddo ag Ynyslas.

Felly, beth oeddem yn disgwyl ganddo? Wel, dim llawer mae'n rhaid cyfaddef! Ond cawsom ein siomi ar yr ochr orau. Llwyddodd i roi llu o wybodaeth am ystadegau am y mwydod mewn dull oedd yn rhwydd i wrando arni. Mae'n bosib ei fod wedi dechrau'r noswaith gyda rhyw fath o gynllun ond buan dechreuodd rhai o'r gynulleidfa ofyn cwestiynau iddo ac os oedd ganddo sgript, aeth allan drwy'r ffenest!

Os felly, gorau byd. Aeth a ni i bob cyfeiriad o sut i greu compost a gwella'r pridd neu ddulliau o balu'r ardd neu beidio palu. Wrth gwrs roedd rhaid sôn am fywyd rhywiol malwod cyn cloi. Pwyll piau mae'n debyg! Diolch iddo am noswaith annisgwyl a hollol wahanol.

Ar 8 Tachwedd cawsom gwmni Peter Love. Fe yw golygydd y cylchgrawn Old Glory sy'n ymdrin â hen beiriannau a thractorau ond yn bennaf rhai stêm. Mae hefyd wedi bod tu cefn sefydlu llu o gylchgronnau'n ymwneud â thractorau o bob math. Mae'r cylchgronnau yma wedi dod yn hynod o boblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf ac i'w gweld yn y siopau papurau ym mhob man.

Mae wedi teithio bob rhan o Brydain a rhannau o'r Cyfandir yn dilyn trywydd hen beiriannau o ddiddordeb; llawer ohonynt yn bethau prin ac anarferol. Roedd ganddo gasgliad eang o luniau i ddangos ar y sgrin. Credaf fod ganddo ddeunydd i gynnal sawl noswaith. Edrychwn ymlaen.

Teithiodd Peter o Ddwyrain Lloegr (Sussex rwy'n credu) i ddod atom. Arhosodd y noswaith ym Maenwaun. Gobeithio nad oedd mewn brys i fynd drannoeth gan fod un neu ddau o bethau diddorol iddo i'w gweld yno! Diolch iddo yntau hefyd.

Yn dilyn y daith tractorau nôl ym mis Medi codwyd yn agos i bum cant o bunnoedd. Bydd siec yn cael ei chyflwyno i adran Chemotherapi Bronglais yn y flwyddyn newydd.


*John Evans*

## Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed

**Glanhau llochesi bws**

Mae'r Cyngor yn chwilio am rywun i lanhau'r lloches bws yn Eglwys-Fach a'r lloches bws yn Ffwrnais ddwywaith y flwyddyn. Bydd tâl am y gwaith. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Teresa (clerc) drwy e-bost clerk@ysguborycoedcommunitycouncil.co.uk neu drwy ffonio 07974 488564.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 10/01/2024



# Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Yn absenoldeb Meinir Fleming, Carys Briddon fu'n llywyddu yn y cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 14 Tachwedd, ac estynnwyd croeso i'r aelodau a'r gŵr gwadd am y prynhawn, sef Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth. Testun ei sgwrs oedd 'Cofio Ieuan Gwyllt', a bu'n sôn am fywyd diddorol a gweithgar y cerddor Cymreig, John Roberts (1822–1877), a anwyd yn Tanrhiwfelen, Capel Seion. Defnyddiai'r enw barddol Ieuan Gwyllt Gelltydd Melindwr pan yn cyfansoddi barddoniaeth pan yn ifanc, ond talfyrwyd yr enw i Ieuan Gwyllt yn ddiweddarach. Yn 1859 cynhyrchodd *Lyfr Tonau Cynulleidfaol*, ac ar ôl ei gyhoeddi dechreuwyd ar gyfnod newydd o ganu emynau cynulleidfaol Cymraeg. Yn yr 1870au, teithiodd yn eang ledled Cymru, gan ddarlithio ar gerddoriaeth gynulleidfaol. Yn 1864 lluniodd argraffiad Tonic Sol-ffa o'i *Lyfr Tonau Cynulleidfaol* a sefydlodd *Cerddor y Tonic Solffa* yn 1869. Yn 1865 daeth yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llanberis, ac yno y bu hyd iddo ymddeol i Lanfaglan, ger Caernarfon, yn 1868. Yn 1874 cyhoeddodd drefniant yn Gymraeg i *Sŵn y Jiwbili* o emynau a thonau Moody a Sankey. Bu farw John Roberts yng Nghaernarfon ar 14 Mai 1877 a'i gladdu ym mynwent Caeathro, ger Caernarfon. Diolchwyd i Dr Griffiths am hanes difyr Ieuan Gwyllt, ac yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Myfanwy Rowlands.



*Dr Rhidian Griffiths*


Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608


## Clwb Cant Neuadd Llanfach

Enillwyr mis Tachwedd:

1. Rhif 32 R.H. Davies
2. Rhif 26 Valerie Young
3. Rhif 65 Keith Fogg


Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

# Neuadd Goffa Tal-y-bont



Roedd y Neuadd Goffa dan ei sang brynhawn Sadwrn 25 Tachwedd wrth i'r gymuned ddod ynghyd unwaith eto eleni i fwynhau'r Ffair Nadolig flynyddol.

Gyda 15 stondin amrywiol yn cynnig cynnyrch lleol a llu o grefftau safonol yr oedd digon o gyfle eleni i lenwi'r cwpwrdd bwyd a'r hosan Nadolig heb symud o'r pentref. Roedd y sgwrsio yn felys hefyd wrth i'r dorf fwynhau'r ymborth a baratowyd gan aelodau a chefnogwyr y Pwyllgor Rheoli.

Wedi gwneud y cyfrif terfynol gwelwyd fod y cyfanswm a godwyd dros £1,300, sydd yn swm anhygoel ac yn deyrnged i'r criw ffyddlon sydd yn cynnal y Neuadd gydol y flwyddyn ac yn arwydd o'r gefnogaeth a roddir iddi gan y gymuned gyfan. Diolch i'r holl stondinwyr am fod yn gefn i'r digwyddiad ac i'r holl gyfeillion am eu haelion yn cyfrannu gwobrau at y Raffl sylweddol yn ogystal â'r bwyd.



Mae'r Pwyllgor Rheoli, o dan gadeiryddiaeth Dafydd Jenkins yn cyfarfod yn fisol ac eleni unwaith eto maent wedi sicrhau llawer o welliannau i strwythur yr adeilad gan gynnwys cwblhau gosod gwydro dwbl trwy'r holl Neuadd a gosod system gyfrifiadurol ddiwifr ar gost o dros £8,000, y cyfan gyda chymorth ariannol Cyngor Ceredigion. Yn ogystal, cwblhawyd y gwaith o harddu'r Neuadd Waelod gyda chymorth gwirfoddolwyr. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o ddiolchgar i Ieuan Morgan a Bob Williams am eu gwaith crefftus yn trwsio llawer o'r gwaith coed a'r peintwyr fu wrthi'n ddyfal. Diolch i Gronfa Eleri am ariannu'r gwelliannau hyn.

Diolch hefyd i Myfanwy James, un o ffyddloniaid y Pwyllgor am gyflwyno cloc yn rhodd i'w ddefnyddio yn yr ystafell bwyllgor. Does dim esgus yn awr i chi fod yn hwyr i'r cyfarfodydd!



Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Pwyllgor Rheoli ym mis Chwefror yn ôl yr arfer, ac mae croeso i unrhyw un sy'n teimlo fel cyfrannu'n ymarferol at y gwaith i ymuno â ni. Byddwn yn dathlu Canmlwyddiant agor y Neuadd Goffa yn 2024 a thrwy'r ganrif mae'r Neuadd wedi ei gwarchod a'i chynnal gan griw o bobl sy'n becso am eu bro ac yn awyddus i ddiogelu'r hyn a etifeddwyd gennym. Mae lle bob amser am waed newydd.

*Phil Davies (Ysgrifennydd)*

# Ble mae Dafydd?



Mae'r clais ar dalcen Dafydd wedi gwella ond mae darn hollol angenrheidol o'i offer wedi torri. Dyma'r darn sy'n cyfeirio'r cwch pan mae'r llongwr wedi penderfynu ar y cyfeiriad mae am gymryd, y peth mwyaf tebyg i ni yw'r satnaf! Ar ddechrau Rhagfyr mae Dafydd yn dynesu at Tasmania de Awstralia ac yn gorfod mynd i Hobart i wneud y gwaith o drwsio'r offer diffygiol. Byddai wynebu Y Môr Tawel, 5500mllt rhwng Tasmania a Yr Horn, de Chile yn llawer iawn rhy beryglus ac yn wirion mentro ymlaen. Y darn nesaf o'r daith yw'r un mwyaf unig o bell ffordd heb na ynys na neb o fewn cyrraedd. Mae Dafydd yn eithriadol o siomedig ond yn derbyn y sefyllfa.

Nid yw'n cael rhoi ei droed ar y tir, daw'r offer iddo a bydd rhaid iddo newid neu drwsio beth bynnag sy'n bod ar ei ben ei hun. Am iddo orfod defnyddio porthladd neu marina a derbyn cymorth mae Dafydd yn cael ei gosbi 96awr, er mewn gwirionedd ni fydd rhaid iddo fod yno am gyhyd.

Fel mae'n digwydd bod mae rhai o'i ddilynwyr yn nabod ffrindiau neu â pherthnasau yn Hobart felly ni fydd heb gwmni! Yn ogystal â chael eu cwmni nhw dros dro i godi calon mae Dafydd bob nos Wener, os yw'r môr yn caniatau, yn gosod goleuadau bach lliwgar o gwmpas y caban, yn cael disgo ac yn ôl pob tebyg yn canu nerth ei ben gan fod neb i wrando arno!

Mae Dafydd tua hanner ffordd ar ei daith o 25000mllt o gwmpas y byd yn ei gwch bach Bendigedig. Allan ar y môr mawr mae Bendigedig, llong fechan, yn gyntaf ond gan taw ras handicap yw'r Global Solo Challenge mae rhai llongau, a rhai hiraf, heb hyd yn oed ddechrau eto felly mae canlyniad y ras ymhell yn y dyfodol.

## Trefnydd Ecodyfi a Chydlynydd Biosffer Dyfi

Cyfle arbennig i berson brwd!

**Nodweddion allweddol i gynnwys:**
Datblygu a rheoli prosiectau a chodi arian; Rheoli staff a sefydliad; Cyfathrebu; Y gallu i weithio yn y ddwy iaith; Gwybodaeth am y gymuned leol a chynaliadwyedd.

**Y Nod:** Datblygu adnoddau a chapasiti ecodyfi a Biosffer Dyfi UNESCO. Cyd-gynllunio i sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gwirioneddol i Fro Ddyfi ac ardal Biosffer Dyfi yn ehangach.

Contract cychwynnol 12 mis; 37 awr/wythnos.

Am fwy o fanylion:
www.ecodyfi.cymru, andy@ecodyfi.cymru, 01654 703965

Dyddiad cau: 10yb 22 Ionawr 2024

ecodyfi

Biosffer Dyfi Biosphere
*gwerth y byd - world class by nature*

pp Rhagfyr 23.qxp_Layout 1 05/12/2023 1:43 pm Page 8

# Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Mae'r Gymdeithas wedi bod yn cysgu ers adeg y Gofid Mawr, ond rydym wedi penderfynu ail-gychwyn ein cyfarfodydd misol ar ôl y Nadolig.

Cynhelir y cyfarfodydd yn Llanfach, ar nos Fawrth olaf y mis, fel o'r blaen. Bydd dim ond pedwar cyfarfod cyn yr haf, ar 30 Ionawr, 27 Chwefror, 30 Ebrill a 25 Mehefin - dim cyfarfod mis Mawrth neu fis Mai oherwydd gwyliau ysgol ayyb.

Rydym wrthi'n trefnu siaradwyr ar hyn o bryd, ond byddant yn gynnwys Michael Freeman yn siarad am ei ymchwil ar ddyddiaduron dau ffermwr o Geredigion yn y 18fed ganrif, ac fe fydd Nigel Callaghan yn trafod y mudiad Dirwestol yng Nghymru, y tai cocoa a thafarndai coffi yn neilltuol.

Os bydd digon o ddiddordeb, trefnir rhaglen lawn ar gyfer 2024-25. Mwy o fanylion ac amserlen llawn mis nesaf.

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Rwy'n siŵr y byddwch yn falch o glywed bod yr ymgyrch i godi arian ar gyfer y Cae Bach yn mynd o nerth i nerth. Codwyd dros £600 yn ystod mis Tachwedd trwy gynnal noson gwis hynod o lwyddiannus a thrwy werthu nwyddau Nadolig yn ffair y Neuadd. Diolch yn fawr i Mid Wales Scaffolding am noddi'r noson gwis ac i bawb a fu'n helpu gyda'r trefniadau, a llongyfarchiadau i dîm 'Kit-kat' ar fuddugoliaeth haeddiannol. Cynhelir y digwyddiad nesaf ar 15 Chwefror, sef noson o gerddoriaeth ffilmiau a rhaglenni teledu yng nghwmni Opera Aber. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn y flwyddyn newydd.

Braf yw gweld bod y gwaith i gryfhau'r ffordd ar ochr ddeheuol Tal-y-bont wedi dod i ben – mae'r wal newydd yn werth ei gweld! Ar ochr arall y pentref, mae'r trefniadau ar gyfer y llwybr troed trwy'r fynwent ac i gyfeiriad Tre Taliesin yn symud ymlaen, a'r gobaith yw y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn y gwanwyn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cwtsh Cynnes wedi bod yn gyfle gwych i'r trigolion lleol gymdeithasu unwaith yr wythnos, ac mae'n bleser dweud bod grant wedi'i sicrhau i barhau â'r traddodiad am dipyn o amser eto. Felly dewch yn llu bob bore Mawrth am sgwrs a phaned. Mae hyn yn gyfle hefyd i atgoffa mudiadau lleol i gyflwyno eu ceisiadau am grantiau gan y Cyngor Cymuned i CyngorCMM@gmail.com erbyn 8 Ionawr.

Ac yn olaf, i roi pawb yn hwyl y Nadolig fe fyddwn yn dod at ein gilydd yn y Patshyn Glas erbyn 4.30pm ar y 7 Rhagfyr i ganu carolau, bwyta ychydig o fins peis, a gwylio goleuadau'r goeden yn cael eu cynnau am y tro cyntaf eleni. Nadolig llawen i chi i gyd!

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

# Teyrnged

## Alun Morgan (Mogs)

Amal i dro dros y blynyddoedd diwethaf gofynais i sawl un "Sut mae Alun Morgan?" Reit amal deiau'r ateb "pwy?" "Wel, Mogs." Ie, Mogs oedd Alun i bawb bron.



Trist oedd clywed am farw Alun ar 19 Hydref 2023 yn 75 mlwydd oed. Roedd wedi byw gydol ei oes yn Rhif 3 Tyrrel Place. Ni fu pethau yn rhwydd iddo; collodd ei deulu agosaf ac yntau yn ifanc. Bu farw ei fam, Janet, cyn bod yn hanner cant, ac yna ymhen llai na blwyddyn ei frawd Gwynfor, yn frawychus o sydyn, ac yntau ond yn 20 oed. Bu farw Stanley ei dad yn 69 oed, a chollodd ei chwaer Beryl a hithau ond yn 42 oed.

Doedd dim llawer yn gwybod am ei golledion. Llwyddodd Alun i ddygymod â phethau gorau medrau heb iddo suro at y byd. Pob parch iddo am lwyddo.

Mynychodd Ysgol Tal-y-bont ac yna Ysgol Dinas, Aberystwyth. Mae'n siŵr mai caethiwed oedd mynd i'r ysgol i Mogs. Roedd yn hoff o chwarae yn yr afon a'r 'transh' o gwmpas ffatri Ceulan ac wedi deall sut i weithio'r fflodiart i droi'r dŵr i'r rhôd. Achosodd i'r rhôd droi ar adegau annisgwyl! Direidi diniwed cyn oes yr 'Health and Safety'.

Yn fuan ar ôl gadael ysgol aeth Alun yn brentis mecanic i gwmni Aberystwyth Tractors. Roedd hwn yn gwmni adnabyddus yn ei ddydd yn enwedig yn y byd amaethyddol. Roedd wedi'i leoli yng Nghoedlan y Parc, Aberystwyth (ble'r aeth Kwik Save yn ddiweddarach). Bu hefyd yn gweithio ym Modurdu Primrose yng nghanol Aberystwyth ble mae 'Charlies' nawr. Gweithiodd hefyd i wahanol gwmniau o gontractwyr a medrai weithio Jac Codi Baw pan oedd angen.

Cofir yn bennaf am Alun yn gweithio i gwmni bysiau Crosville (Arriva yn ddiweddarach) yn cynnal a gwasanaethu bysiau'r cwmni. Byddai galw arno weithiau i yrru bws ysgol neu i drosglwyddo bws o un rhan o'r wlad i'r llall. Gweithiodd yno am flynyddoedd nes iddo ymddeol. Diweddodd ei fywyd gwaith o fewn tafliad carreg o ble cychwynodd flynyddoedd ynghynt.

Ar ôl ymddeol gwnaeth Alun ailgydio yn ei ddiddordeb o bysgota. Treuliodd ddyddiau lawer ar Lyn Clywedog gyda chwmni ffyddlon o Dal-y-bont a fu yn driw iawn iddo. Roedd hefyd yn hoff iawn o hen dractorau a gwelwyd y 'Massey 135' bob blwyddyn yn Sioe Tal-y-bont.

Ni fu iechyd Mogs yn rhy dda am dros ddeng mlynedd ond llwyddodd i ddal ati. Er ambell i sbel yn yr ysbyty, byddai nôl yn ein plith ymhen dim. Fel y dywedai "cymryd y 'smarties' a chadw i fynd."
A dyna a wnaeth. Roedd yn rhaid cerdded bob dydd at Llwyn Awel, Pentrebach. Gyda help ei ffon yn y diwedd ond "cadw i fynd" oedd hi. Nes methodd. Treuliodd ei bythefnos olaf yn Ysbyty Bronglais.

Addas efallai oedd i Alun gael ei gludo tu ôl i'r tractor coch ar ei siwrnai olaf i'r Amlosgfa. Gwnaeth yntau yr un gwasanaeth â chymeriad lleol tua thair blynedd yn ôl. Daeth tyrfa eang o bell ac agos i'r gwasanaeth.

Er dweud wrth Alun golli'i deulu agosaf roedd llawer o berthnasau ganddo. Estynnwn ein cydymdeimlad a nhw i gyd.

Coffa da am Mogs.

*John Evans*

## Sesiwn Nos Wener Tal-y-bont

Noson yng nghwmni Neil Rosser oedd arlwy Sesiwn Nos Wener Tal-y-bont ar y 24 Tachwedd. Roedd yr ystafell yn Y Llew Gwyn, Tal-y-bont yn gyfforddus lawn i glywed un o gymeriadau difyrraf y byd canu poblogaidd Cymraeg. Aeth Neil a ni ar daith gerddorol o gwmpas Abertawe a thu hwnt drwy ganeuon ei yrfa. Braf oedd cael gwrando arno yn rhoi cefndir a hanes rhai o'i ganeuon mwyaf poblogaidd gan roi cyd-destun newydd ac annisgwyl i ambell i lein gofiadwy cyn eu perfformio. Edrychwn ymlaen yn fawr at arlwy'r Sesiwn yn 2024.

# Nadolig gynt yn Ewrop

Ysgrifennwyd y darnau canlynol gan sawl un sy'n byw yn ein plith ac yn cofio'r Nadolig gynt pan oeddynt adref yn blant.



Pan oeddwn i'n ifanc iawn yn ne-orllewin yr Almaen byddai prif ddathliadau'r Nadolig ar Noswyl Nadolig hynny yw 24 Rhagfyr. Roedd fy mrawd a minnau'n cael ein gwahardd o'r lolfa drwy gydol y dydd er mwyn i mam a dad addurno'r ystafell a gosod y goeden a'i haddurno hithau hefyd. Yna am bedwar o'r gloch y pnawn ai pawb i'r eglwys i'r Gwasanaeth Nadolig. Wedi cyrraedd adre roedd drws y lolfa'n cael ei agor a dyna lle'r oedd ein hanrhegion a'r goeden wedi ei haddurno'n berffaith gyda chanhwyllau go iawn arni. Yn dilyn roedd y pryd Nadolig sef cyw iâr a madarch gyda saws gwyn mewn casyn crwst pwff. Ar ôl gorffen ein bwyd byddem yn canu a chwarae carolau – roedd pawb yn ein teulu yn chwarae offeryn – ac o'r diwedd roedd caniatâd i agor ein anrhegion.

Dywedwyd wrth blant bach taw'r babi Iesu oedd wedi paratoi'r ystafell a dod â'r anrhegion.

Ond nid oedd Siôn Corn, neu Sant Nicholas yn yr Almaen, yn dod ar ddydd Nadolig ond yn hytrach ar 6 Rhagfyr pan oedd rhaid i blant bach ganu ac adrodd iddo. Arferai Sant Nicholas gosbi neu gwobrwyo plant felly roedd rhywfaint o'i ofn arnom! Wrth i ni fynd yn hŷn nid oedd yn dod fel person yn hytrach gosodwyd pâr o esgidiau tu allan i'r drws i'w llenwi gyda ffrwythau a chnau.

*Frohe Weihnachten!* *Claudi Gassner (Jones)*



Rwy'n credu fy mod i'n freintiedig oherwydd roedd fy Nadolig i, pan oeddwn yn ifanc, yn Lapland, Sweden adeg tywydd creisionllyd oer, eira mawr iawn, Goleuni'r Gogledd a golygfeydd hyfryd i'r Nadolig perffaith.

Y diwrnod pwysig oedd Noswyl Nadolig sef 24 Rhagfyr. Dechreua llawer o deuluoedd y diwrnod yn gynnar gan fynd i ganu carolau yn yr eglwys sydd wedi ei haddurno'n chwaethus gyda chanhwyllau niferus a choeden go iawn liwgar. Dyma gyfle bendigedig i wir deimlo ysbryd yr Ŵyl.

Nawr, yn ôl yn y tŷ mae'n amser i *tomtegröt*, pwdin reis traddodiadol wedi ei daenu â sinamon. Pan fo hwn wedi ei orffen dechreuir coginio'r cinio sydd yn *smögasbord* o wahanol fwydydd; y prif gig yw ham bob tro ond gall fod yn bysgod neu beli-cig gyda nifer o wahanol lysiau. Ond fy ffefryn i? Temtasiwn Janssons, caserol o datw, ionod, sprats, briwsion bara a hufen!

Am dri o'r gloch tra bod y bwyd yn coginio, mae'r wlad i gyd yn eistedd o flaen y teledu i wylio Donald Duck, traddodiad ers 1960 a'r traddodiad hiraf yn hanes teledu Sweden. Gen i syniad bydd y rhan fwyaf o bobl yn agor y bocs o siocled Aladin hefyd, mae'n rhaid cael ym mhob cartref adeg yma o'r flwyddyn. O'r diwedd ar ôl Donald Duck mae'n amser cinio a gan fod cymaint o ddewis o wahanol fwydydd bydd pob un yn cael ei plesio. I yfed bydd *Julmut* sef diod di-alcohol, gwerthir 45 miliwn litr ohono bob Rhagfyr yn Sweden!

Ar ôl y cinio hir daw *Jultomen* yn bersonol i ddosbarthu anrhegion, hwn o bell ffordd yw'r uchafbwynt i blant. Treulir gweddill y dydd yn agor a chwarae gyda'r anrhegion, gwylio ffilmiau ac yn fwyaf pwysig, gorffen y bocs Aladin o flaen y tân.

*God Jul!* *Jennifer Kardefelt (Jones)*



Adeg gyffroes o'r flwyddyn oedd y Nadolig ym Mharis, adeg oedd yn cynnig gwledd i'r holl synhwyrau: strydoedd rhewllyd yn disgleirio dan oleuadau amryliw'r ŵyl ac arddangosfeydd prysur y siopau ar hyd y lonydd yn fy ardal i o'r ddinas. Clywyd alawon llawen yng nghanol cefndir o brysurdeb a ffwdan a llenwyd yr aer gan arogl cryf *vin chaud* yn dod o gyfeiriad *les marchès* – profiad meddwl i unrhyw un ifanc.

Tra oedd dad allan yn chwilio am y goeden berffaith, gydag eira ffug, helpu yn siop trin wallt mam roeddwn i – cwsmeriaid ffyddlon mam yn pasio ychydig o ffrancs i mi yn llechwraidd! Cau'r siop ar Noswyl Nadolig oedd wir ddechrau'r Ŵyl, mynd am adre i addurno'r goeden berffaith gyda chlymau coch ac aur tra oedd mam yn ein cegin fechan iawn yn paratoi canapé, wystrys, nifer di-ri o wahanol lysiau a'r *piece de résistance* …naill ai twrci ffres neu gwydd. Byddai aelodau eraill o'r teulu yn cyrraedd ein tŷ ni a phawb yn ymuno i fwynhau gwledd yr ŵyl cyn mynd allan i'r Offeren Ganol Nos.

Amser i agor anrhegion bendigedig oedd bore Nadolig ac yna gorffwys ar ôl gwallgofrwydd y diwrnodau cynt.

*Joyeux Noël!* *Christine Lucie Rouillon (Evans)*






# Neuadd Llanfach





Cynhaliodd Neuadd Llanfach ei Ffair Nadolig gyntaf ar y 26ain o Dachwedd. Cafwyd ffair hynod lwyddiannus gyda 13 stondin, ymweliad gan Siôn Corn, a chyfle arbennig i gael lluniau teulu yn barod at y Nadolig gan Cwtch Photography. Hoffai'r criw fu wrthi'n trefnu ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

pp Rhagfyr 23.qxp_Layout 1 05/12/2023 1:43 pm Page 10

# Colofn **Elin a Ben**



Mae tymor yr Hydref yn gyfnod prysur i bawb, gan gynnwys ein dau. Rydym wedi wynebu nifer o heriau cyn i'r gaeaf ein cyrraedd go iawn, ond rydym wedi ceisio clatsio bant gyda'r gwaith.

Yn dilyn cyhoeddiad disymwth Llywodraeth Cymru i ddiddymu gwasanaeth y Bwcabus ddiwedd Hydref, rydyn ni'n parhau i roi pwysau ar Weinidogion yn y Senedd i wella gwasanaethau bysus ar draws Ceredigion. Mae Dolen Teifi, darparwyr cludiant cymunedol, yn cydweithio gyda swyddogion Cyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru i geisio dod o hyd i ddatrysiad tymor hir i ardaloedd gwledig ac i wella cysylltiadau'r gwasanaethau. Yn anffodus, mae cyllid yn brin iawn ar lefel sirol a gwladol, sy'n gwneud y sefyllfa'n un anodd iawn.

Er hyn, mae llygedyn o obaith ynghylch adfer gwasanaeth y Cardi Bach yn y flwyddyn newydd, a gobeithiwn y bydd yn ailddechrau ei deithiau o fewn amserlen gwasanaeth y T5 o Aberystwyth i Hwlffordd, drwy Aberteifi a Chei Newydd. Yn ogystal, mae cynllun peilot trafnidiaeth cyhoeddus ar waith yn ardal Cellan ar hyn o bryd, sy'n cael ei gydlynu gan Gynghorydd Plaid Cymru dros Llangybi, Eryl Evans, a grŵp o ddefnyddwyr y gwasanaeth 585.

Yn wir, mae toriadau diweddar i'r gwasanaethau bysus ar draws Ceredigion wedi cael effaith andwyol ar bobl, yn eu rhwystro rhag teithio i'r gwaith, mynychu apwyntiadau ysbyty a siopa bwyd. Yn anffodus, mae'r argyfwng costau byw ond yn mynd i waethygu'r sefyllfa i nifer fawr o bobl y gaeaf hwn. Mae'r 'argyfwng costau byw' wedi dod yn rhan annatod o sylwebaeth wleidyddol a newyddion erbyn hyn fel nad yw'n ysgogi gweithredu na'r ymdeimlad o frys y dylai ei dderbyn. Mewn gwirionedd, mae miliynau o bobl yn parhau i wynebu caledwch o ganlyniad i ddiffyg gweithredu Llywodraeth y DU i amddiffyn teuluoedd cyffredin. Tra bod prisiau nwy, trydan, tanwydd a bwyd yn parhau i godi i'r entrychion i ni, mae corfforaethau a chwmnïau mawr yn dyblu eu helw. Nid argyfwng costau byw mohono ond argyfwng anghydraddoldeb. Mae Plaid Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i flaenoriaethu bywydau pobl gyffredin, yn hytrach nag elw trachwantus corfforaethau mawr, am unwaith. Mae hi'n mynd i fod yn aeaf caled a chostus, does dim gwadu hynny ond mae'n rhaid i ni glosio yn ein cymunedau a helpu ein gilydd pan fo modd.

Mae'r ddau ohonom yn dymuno Nadolig llawen i bawb a blwyddyn newydd dda. Dymuniadau gorau i bawb sy'n cynnal digwyddiadau dros yr Ŵyl; mae'n bwysig ein bod ni gyd yn bachu ar bob cyfle i ddod ynghyd a gwneud y mwyaf o'n cymunedau. Yn anffodus, nid pawb sy'n ddigon ffodus i gael y cyfle i wneud. Byddwn ni gyd yn meddwl am amgylchiadau trychinebus y bobl yn Gaza, Israel, Wcrain a'r rhai sy'n parhau i fyw dan fygythiad rhyfel. Dymunwn am heddwch y Nadolig hwn ar gyfer y dyfodol i ddod.

*Elin Jones AS a Ben Lake AS*

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

# Llwyddiannau'r Ffair Aeaf




*Elgan Evans, Pantcoch yn dod i'r brig yn y Ffair Aeaf*

Mae'n arwydd pendant fod y Nadolig yn agosáu gyda chynnal y Ffair Aeaf flynyddol yn Llanelwedd. Wedi wythnosau prysur o baratoi, braf unwaith yn rhagor oedd gweld llwyddiant yn dod i ran teuluoedd lleol. Gwelwyd teulu Tynant yn serennu unwaith yn rhagor yn adran y gwartheg. Cipiodd Pennantlliw Elsi'r wobr gyntaf yn adran heffrod pedigri a Pennantlliw Berwyn yn ennill adran bustych pedigri y Gwartheg Duon Cymreig. Daeth Harri i'r brig yn nosbarth y bustych ifanc ysgafnaf o dan 425kg ac i goroni'r cyfan enillwyd tlws y pwyntiau uchaf yn adran y gwartheg. Llongyfarchiadau mawr - tipyn o gamp!

Mae cylch Papur Pawb yn enwog am eu buchesi gwartheg duon a braf oedd gweld Arglwyddes Riwbi 9fed ac Arglwyddes Riwbi 15fed o eiddo teulu Tanyrallt, Tal-y-bont yn cael eu harddangos ar stondin y Gwartheg Duon yn y Ffair Aeaf eleni. Buwch ddu a llo fenyw rhagorol wrth droed yn arddangos rhinweddau arbennig y brid i fynychwyr y sioe.

Braf hefyd oedd gweld bod dyfodol amaethyddol yr ardal yn ddiogel yn nwylo brwdfrydig y genhedlaeth nesaf. Bu llwyddiant unwaith yn rhagor gyda moch Penlan, Talsarn, sef teulu Eifiona Evans, Glanaber, Tal-y-bont. Uchafbwynt arbennig i'r teulu oedd gweld Mari ac Ieuan Evans yn cystadlu yng Nghystadleuaeth y Trinwyr Ifanc yn adran y Moch a hynny am y tro cyntaf. Mari yn cipio'r wobr gyntaf ac Ieuan yr ail wobr yng nghategori'r Triniwr Ifanc 7 - 12 oed, a Mari yn mynd ymlaen i ennill tlws Pencampwr Triniwr Ifanc yr adran. Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dau.

Dau arall o blant yr ardal gafodd lwyddiant arbennig yn Llanelwedd eleni oedd Hari ac Ela Williams, Maes y Deri, Tal-y-bont yn cipio'r drydedd wobr allan o un ar hugain o gystadleuwyr yn nosbarth par trinwyr ifanc rhwng 7 a 12 oed yn adran y defaid. Arbennig iawn.

Edrychwn ymlaen at ddarllen am eu llwyddiannau yn nhudalennau Papur Pawb am flynyddoedd lawer i ddod!




*Hari ac Ela Williams*

pp Rhagfyr 23.qxp_Layout 1 05/12/2023 1:43 pm Page 11

# Cletwr

Bu mis Tachwedd yn brysur iawn yn Cletwr.

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol ar y 25ain. Diolch i bawb a ddaeth. Mae nifer o newidiadau wedi digwydd ar y Bwrdd. Mae Cath Lloyd-Williams wedi sefyll i lawr fel Cadeirydd, ar ôl dwy flynedd, ac mae Helen Ovens wedi cymryd drosodd, gyda Nigel Callaghan fel Is-gadeirydd. Mae Cath yn aros fel aelod y bwrdd. Diolch iddi hi am ei gwaith caled dros Cletwr yn ystod adeg nad oedd yn hawdd!

Mae Barry Wise wedi sefyll i lawr fel Trysorydd ar ôl wyth(?) mlynedd. Mae'n deg ddweud ni fyddai Cletwr dal ar agor heb ei waith a chyngor doeth dros y blynyddoedd. Mae dyled fawr gan ein cymuned iddo. Mae Andy Lloyd-Williams wedi ymuno â'r Bwrdd fel y trysorydd newydd, gyda chymorth gan Jane Nicholls fel Is-drysorydd.

Mae Cindy Harris hefyd wedi ymddeol o'r Bwrdd. Diolch iddi hi am ei gwaith, yn arbennig ei sgiliau wrth inni ddylunio a chodi'r adeilad newydd. Mae Rose Phillips yn parhau fel Ysgrifennydd, ond bellach mae Jane Whitaker wedi ymgymryd ar swydd Is-ysgrifennydd.

Talwyd teyrnged gan Cath i Derv Casey, aelod o'r Bwrdd, gwirfoddolwraig, cyn-aelod o staff a chyfaill brwd i Cletwr, a fu farw yn ddiweddar.

Mae'r Bwrdd yn croesawu aelodau newydd, yn arbennig os oes sgiliau defnyddiol gennych. Cysylltwch â Cletwr os oes diddordeb gennych.

Cynhaliwyd ein Ffair Crefft Nadolig Blynyddol ar 1af Rhagfyr. Bu'n llwyddiannus iawn, gyda lot o hwyl a sbri prynwyd tomen o anrhegion Nadolig, bwytawyd dwsinau o mins-peis ac yfwyd galwyni o win sbeislyd, cynnes! Diolch i gantorion Arising a Phil Wheeler a'i band jazz 'Sunshine' am ein diddanu ni i gyd.

Peidiwch ag anghofio bod Cletwr yn cynnig gwasanaeth archebu cig a llysiau ar gyfer y 'Dolig. Rhaid i ni dderbyn archebion ar gyfer cig o Gigydd Penparcau erbyn 11eg, a llysiau erbyn 18fed. Dewch i Cletwr i godi popeth Noswyl Nadolig ac osgoi taith hunllefus i'r dre!

Mae dewis eang o ddanteithion ac anrhegion i'r 'Dolig ar gael yn Cletwr, fel arfer, felly dewch i mewn i gyflenwi'ch anghenion i gyd. Ac, os ydych chi'n methu a ffeindio rhywbeth i Anti Myfanwy neu Wncl Dai, beth am docyn rhodd Cletwr? Wedyn maen nhw'n gallu cael pryd o fwyd yn y caffi, neu brynu llyfrau neu hyd yn oed botel o jin! Rhywbeth at ddant pawb.

Ac wrth gwrs, bydd ymwelydd enwog yn dod i Cletwr pnawn dydd Gwener 15fed – Siôn Corn, y dyn ei hun gyda'i farf mawr gwyn a sach o anrhegion! Mae e'n brysur iawn adeg 'ma y flwyddyn, felly edrychwch ar ein tudalen Facebook i tseco'r amser.

Nadolig Llawen i chi i gyd!

*NC*

# CFfI Tal-y-bont



*Noson creu addurn Nadolig*

Rhaid dechrau ein adroddiad y mis hwn drwy longyfarch Beca a Cadi Williams am lwyddo mor arbennig yn Eisteddfod CFfI Cymru yn Ynys Môn. Llongyfarchiadau i'r ddwy ar gipio'r wobr gyntaf yn y Ddeuawd - cystadleuaeth wych, meddai Mair Nutting, a oedd yno'n eu gwylio. Cafodd Beca 2il yn yr Unawd Alaw Werin hefyd. Ry' ni mor falch ohonoch eich dwy, ac yn diolch o galon i chi am gynrychioli CFfI Tal-y-bont ar ran Ceredigion ar lwyfan genedlaethol. Ceredigion a ddaeth yn gydradd gyntaf gyda Sir Gâr yn yr Eisteddfod eleni.

Elliw Dafydd o CFfI Ceredigion ddaeth aton ni i'r clwb ddechre Tachwedd i gynnal sesiwn hwyl gyda'r criw. Mae'r lluniau a dynnwyd ar y noson yn dweud y cyfan! Rhaid diolch hefyd i Lowri Jones o Bro 360 - rhan o gwmni Golwg - a ddaeth ar 14 Tachwedd i ddysgu'r aelodau sut i ysgrifennu straeon am eu hardal. Gobeithio bod 'na gyw newyddiadurwyr wedi cael eu deor yn y neuadd y noson honno! Clatshwyd digon o beli yn ein noson yng Nghlwb Golff Penrhos, Llanrhystyd ar yr 21ain, a chladdwyd digon o chips yn dilyn hynny hefyd. Digwyddiad ola'r mis oedd noson creu addurn Nadoligaidd gyda Sara Gibson.



*Elliw Dafydd o CFfI Ceredigion yn diddanu criw CFfI Tal-y-bont*






# Chwaraeon a Hamdden

## Hanner canmlwyddiant






Mae Clwb Pêl-droed Tal-y-bont wedi bod yn dathlu ei ben-blwydd yn hanner cant oed eleni. Er bod timau pêl-droed wedi cynrychioli'r ardal am rai blynyddoedd yn y gorffennol pell, mae'r hanner canmlwyddiant yn cyfeirio at ail-sefydlu'r clwb yn 1973.

I ddathlu'r achlysur, bydd Papur Pawb, yn ystod y misoedd nesaf, yn cynnwys ffotograffau o dimau'r cyfnod ac o ddigwyddiadau ar y maes dros y blynyddoedd.

Dechreuwn gyda'r tîm a enillodd Gwpan y Gynghrair yn 1981 ar noson fythgofiadwy ar faes Coedlan y Parc. Enillwyd y ffeinal 3-2 yn erbyn Phoenix (tîm o fyfyrwyr o goleg Aberystwyth). Dyma'r chwaraewyr sy'n dathlu gyda'r gwpan. Cefn: Andy James, John Richards, Eric Roberts, Bill Gifford, Ray Smith, Chris Pike. Blaen: Geraint Roberts, Anthony Southgate, John Southgate, Dilwyn Roberts, Keith Davies, Bryn Smith.

## Lefi yn y Ddalfa

**Cafodd Lefi Gruffydd brofiad anffodus iawn wrth iddo ddilyn Cymru ar gyfer y gêm bant yn Armenia ar 18 Tachwedd.**

**Dyma'i adroddiad am ei gyfnod brawychus yn y ddalfa yn Yerevan. Rydym yn falch o'i weld yn ôl yn ein plith yn fyw ac yn iach.**

'Dwi erioed wedi cael cymaint o anfarwoldeb yn fy mywyd nag ar ôl treulio noson mewn swyddfa heddlu ar drip i gefnogi Cymru yn Armenia. Dwi'n gwybod nawr sut roedd Dwynwen Morgan yn teimlo ar ôl cael ei gweld yn bloeddio'r anthem ar y teledu adeg Cwpan y Byd llynedd.

Mi o'n i'n cael pobl am dynnu eu llun gyda fi yn y maes awyr, pob yn ail berson yn gofyn a oeddwn i'n iawn ar ôl y fath brofiad erchyll, a hyd yn oed pobl fel Gerallt Pennant yn ymddiheuro nad oedden nhw wedi gofyn sut o'n ni ar ôl cael fy nghloi lan am noson yn Yerevan.

Mi nodais yn y Western Mail mai fy mai i oedd hyn siŵr o fod – fues i bach o ffŵl yn cytuno i wneud cyfweliad gyda Janet Ebenezer yn Gymraeg, ar ôl arwyddo na fyddwn i'n sôn am y profiad wrth unrhyw un. O fewn dim, mi o'n i ar wefannau rownd y byd fel y cefnogwr blin, gan gael fy nyfynnu mewn llefydd fel yr Express ac yn fwy pryderus, yr Armenian Report.

Oedd, mi oedd yn ddigon diflas, ond a dweud y gwir doedd e ddim llawer gwaeth na thriniaeth gan yr heddlu yng Nghymru.

Do, mi gafon ni ein bygwth, ac mi oedd gynnau yn cael eu chwifio yn ein wynebau am gyfnod, pan oedd rhai o'r penaethiaid yn trio cael bach o hwyl.

Ac mi o'n i gyda crwt ugain oed o Ferthyr am yr awr neu ddwy ola oedd yn ei ddagrau druan, yn poeni y byddai yn y carchar am fisoedd.

Ond mi gysurais y boi, gan ddweud yn go sicr y byddai'n chwerthin am yr holl beth mewn cwpwl o ddyddie.

Ac mi o'n i'n iawn. Doedd e ddim yn brofiad drwg i gyd. Ar ôl troi cornel a sylweddoli nad o'n nhw wir am wneud niwed i ni, roedden ni'n gallu ymlacio a gweld pa mor chwerthinllyd oedd yr holl beth.

Roedd rwbeth ysbrydol am weld y wawr yn torri a mynydd Ararat yn edrych droston ni drwy'r ffenest. Ac o'n i'n diawlo ein bod yn colli diwrnod mor braf mewn swyddfeydd comiwnyddol diflas.

Ges i sgyrsiau difyr gyda chriw o Aberteifi oedd yn hynod gyfeillgar a chefnogol – roedd mwy o Gymraeg nag Armineg yn y Swyddfa Heddlu y bore hwnnw. Ac roedd cysur o gael fy rhyddhau cyn y gêm i ymuno â'r Wal Goch, a chael sgyrsiau gyda phobl fel Meirion Appleton yn ystod y gêm.

Bythefnos yn ddiweddarach dwi dal ddim callach pam gafon ni ein harestio. Roedd na sôn fod na Gymry wedi camymddwyn mewn bar cyfagos, ac mi oedd na ryw DJ o Guinea gyda ni, gydag ambell stori ryfedd yn mynd o gwmpas am ei gyswllt e, yr heddlu ac un neu ddau o gefnogwyr Cymru. Ond yn bendant fuodd neb yn ymladd, er y cyhuddiad rhyfedd bod 60 o Gymry mewn sgarmes fawr yng nghanol y ddinas!'




### Hatric i Tomos

Cafodd Tomos Benjamin benblwydd i'w gofio ar 11 Tachwedd. Ac yntau'n dathlu ei benblwydd yn 18 oed, llwyddodd i sgorio hatric i Dal-y-bont yn y fuddugoliaeth o 5-3 yn Nhregaron. Llongyfarchiadau iddo ac i'r tîm.